



Y Gangen Gofal Cymhleth, Gofal Heb ei Drefnu ac Anabledd
Yr Is-adran Partneriaethau a Chydweithredu
Llywodraeth Cymru

Drwy e-bost

19 Awst 2019

Annwyl Syr / Madam,

Fframwaith drafft cenedlaethol ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Mae Gofal Iechyd Parhaus y GIG (GIP) yn ffynhonnell gyllid sy'n hanfodol i bobl hŷn yn aml iawn, drwy helpu i reoli cost eu gofal pan fyddant yn byw gydag anghenion iechyd a gofal sylweddol.

Er fy mod yn croesawu'n fras y newidiadau arfaethedig i'r fframwaith, mae gennyf rai pryderon sy'n deillio o'r achosion sy'n ymwneud â GIP y mae fy swyddfa wedi gweithio arnynt. Mae'n amlwg bod y system GIP ymhell o fod yn berffaith a bod cymhlethdodau'r broses ac amrywiadau yng ngweithrediad y fframwaith yn cael effaith negyddol ar rai pobl hŷn. Mae angen mynd i'r afael â'r materion hyn fel y gall pobl hŷn barhau i gael mynediad i gyllid GIP a diwallu'r anghenion a aseswyd.

Asesu cymhwysedd

Rwy'n croesawu'r pwyslais a roddwyd ar alluogi i asesiadau gael eu cynnal ar yr amser a'r lleoliad iawn ar gyfer yr unigolyn. Yn aml nid yw ysbytai yn fannau addas ar gyfer asesu ac mae llefydd cyfarwydd, fel cartrefi unigolyn, yn fwy priodol ar gyfer asesiad GIP.

Mae angen i Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol weithio'n agosach er mwyn sicrhau mai anghenion yr unigolyn sy'n cael y flaenoriaeth bob tro. Rwy'n ymwybodol, o'r gwaith achos sy'n cael ei wneud gan fy swyddfa, nad yw hynny'n wir bob amser. Mewn un achos, roedd unigolyn heb allu yn wynebu cael ei droi allan gan fod anghytuno ynglŷn â phwy fyddai'n talu am ei becyn gofal cynyddol yn dilyn cynnydd yn ei anghenion wrth aros am asesiad GIP. Achosodd hyn straen anfesuradwy ar deulu'r unigolyn. Yn dilyn cyngor gan fy swyddfa, galluogwyd teulu'r

03442 640 670

Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

unigolyn i wneud cwyn, ac arweiniodd hynny at gydweithio clos rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd. Mae unrhyw fwlch mewn gofal yn ystod asesiad yn annerbyniol ac er fy mod yn croesawu cynigion ar gyfer cydweithio gwell rhwng Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol, yr allwedd i'r llwyddiant hwn yw ei weithrediad. Byddaf yn parhau i fonitro ansawdd cydweithio o'r fath drwy fy ngwaith achos i ddeall yr effaith ar bobl hŷn.

Mae'n hanfodol bod pobl yn cael mwy o wybodaeth ynglŷn â chymhwysedd a'r broses GIP fel y gallan nhw wneud dewisiadau gwybodus ynghylch a ydynt am fwrw ymlaen gydag asesiad. Rwy'n poeni bod yna achosion lle gallai unigolion gael eu hannog i beidio â chael mynediad i gyllid GIP cyn cynnal asesiad oherwydd rhagdybiaethau y gallan nhw, neu staff, eu gwneud ynglŷn â chymhwysedd. Er enghraifft, rwyf wedi darparu cymorth i unigolion sydd wedi cael gwybod cyn asesiad na fyddant, ar sail profiad yr aelod staff, yn gymwys am GIP. Mae hyn yn golygu eu bod, o bosib, yn colli allan ar y cyllid hanfodol hwn.

Rwy'n falch bod y fframwaith arfaethedig yn pwysleisio'r angen am wybodaeth well i unigolion a'u teuluoedd. Gallai'r rhestr wirio gyflwyno mecanwaith sgrinio mwy ffurfiol, yn hytrach na defnyddio rhagdybiaethau. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio hwn yn lle asesiad llawn, ac ni ddylid ei ddefnyddio chwaith i wahardd unigolion rhag gofyn am asesiad llawn. Mae angen cynnwys y defnydd o'r rhestr wirio mewn rhaglen hyfforddi genedlaethol ar gyfer staff rheng flaen fel bod y rhestr wirio yn cael ei defnyddio'n gyson ar draws Byrddau Iechyd.

Er bod y fframwaith yn nodi bod yn rhaid i'r 'unigolyn a'i ofalwyr chwarae rhan lawn yn y broses asesu o'r cychwyn cyntaf', rwy'n ymwybodol nad dyma'r sefyllfa bob tro. Ymchwiliodd fy nhîm gwaith achos i gŵyn lle gwahoddwyd aelod o deulu'r unigolyn i asesiad ond ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth cyn y cyfarfod er mwyn iddynt ymbaratoi; roeddent hefyd yn teimlo dan fygythiad ac o dan bwysau i gytuno â gweithwyr proffesiynol yn ystod yr asesiad. Rhaid i leisiau'r unigolyn a'r cynrychiolydd fod yn flaenllaw mewn unrhyw asesiad er mwyn sicrhau bod y penderfyniad cymhwysedd yn gywir. Mae angen i'r fframwaith hefyd gynnwys geiriad cryfach o ran rôl yr unigolyn a'r cynrychiolydd yn y Tîm Amlddisgyblaethol i sicrhau bod y tîm aml-ddisgyblaethol yn cynnwys y rheini y mae'r asesiad yn berthnasol iddynt. Rwy'n credu y byddai cyflwyno rhyw fath o adborth neu arolwg ôl-asesiad, i'w gwblhau gan yr unigolyn neu'r teulu, hefyd yn gyfle i Fyrddau Iechyd wella eu dulliau yn barhaus a sicrhau bod llais yr unigolyn i'w glywed yn gyson.

Rwyf wedi sylwi, drwy fy nhîm gwaith achos, fod pobl hŷn a'u teuluoedd yn aml ddim yn teimlo'n barod ar gyfer y broses GIP ac i gwrdd â'r Tîm Amlddisgyblaethol. Rwy'n credu y byddai creu 'pecyn parod' sy'n cynnwys gwybodaeth am apeliadau, copi o'r Offeryn Cefnogi Penderfyniadau, canllawiau, a gwybodaeth gyhoeddus ehangach, a ddarparwyd i'r unigolyn cyn yr asesiad, yn sicrhau bod unrhyw un sy'n rhan o'r broses yn teimlo ei bod wedi paratoi'n well.

Eiriolaeth

Credaf fod mynediad at eiriolaeth, gan gynnwys eiriolaeth annibynnol (statudol ac anstatudol), yn hanfodol i sicrhau y gall pawb fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Ni ddylid cyfyngu angen rhywun am eiriolaeth ac eiriolaeth annibynnol i p'un a oes gan berson ddiffyg gallu i wneud rhai penderfyniadau - dylai fod yn ystyriaeth allweddol i bawb. Felly, rwy'n croesawu'r cyfeiriad yn y fframwaith at unigolion yn cael cynnig eiriolaeth annibynnol fel mater o drefn. Fodd bynnag, rwy'n dal yn bryderus nad yw lefel y gwasanaethau eirioli annibynnol ledled Cymru yn ddigonol i ddiwallu'r angen.

Mae angen ystyriaeth bellach drwy'r fframwaith ar ddefnyddio'r term 'eiriolaeth'. Mewn rhai achosion, defnyddir y term i ddisgrifio eiriolaeth anffurfiol, a ddarperir yn aml gan aelod o'r teulu neu ffrind, ac nid yw'n gwahaniaethu pan gaiff ei ddefnyddio i gyfeirio at eiriolaeth a ddarperir gan weithiwr proffesiynol hyfforddedig, p'un ai o dan ddyletswydd statudol neu fel arall. Mae'n bwysig bod yn glir y gallai amrywiaeth o ddulliau eirioli fod yn briodol i sicrhau bod unigolyn yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Er bod y fframwaith yn cyfeirio at eiriolaeth statudol a ddarperir mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar ffurf Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol, nid yw'n glir a fyddai unigolyn yn gallu cael mynediad i eiriolaeth statudol o dan Ddeddf 2014 wrth gael asesiad ar gyfer GIP, gan fod Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol wedi'i chyfyngu i ofal cymdeithasol. O'r herwydd, efallai na chaniateir i wasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol weithio gyda phobl mewn meysydd eraill y tu allan i'r cylch gwaith hwn, fel iechyd, a rhaid i'r fframwaith arfaethedig fod yn fwy eglur ar y mater hwn.

Penderfyniadau cymhwysedd

Er fy mod yn croesawu'r iaith sy'n sicrhau bod penderfyniadau cymhwysedd yn cael eu cyfathrebu'n gyflym drwy ddulliau ysgrifenedig a llafar, mae angen ystyried a blaenoriaethu'r dull o gyfathrebu sy'n cael ei ffafrio gan yr unigolyn.

Mae fy swyddfa wedi darganfod, pan wneir penderfyniad asesu, y gall unigolion yn aml fod yn ansicr o'r rhesymeg y tu ôl i benderfyniadau. Mewn un achos, roedd unigolyn wedi drysu ynglŷn â pham nad oedd aelod o'u teulu yn gymwys i gael GIP er iddynt sgorio'n uchel yn yr asesiad, a dim ond saith diwrnod a roddwyd i apelio yn erbyn y penderfyniad, sy'n amser afresymol o ystyried nad oeddent wedi cael gwybod yn iawn pam y gwnaed y penderfyniad. Felly, rwy'n croesawu bod y fframwaith yn nodi cyfnod o 28 diwrnod i apelio a sut dylid cyfleu'r penderfyniad terfynol ar gymhwysedd i'r unigolyn. Fodd bynnag, mae angen i'r penderfyniad ysgrifenedig fod yn glir, yn gryno ac egluro rhesymeg y Tîm Amlddisgyblaethol yn llawn fel y gall yr unigolyn wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn ag apelio neu

beidio. Drwy fy ngwaith achos, byddaf yn monitro gweithrediad penderfyniadau cymhwysedd i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu deall y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Darparu Gwasanaethau

Mae fy nhîm gwaith achos wedi cefnogi nifer o unigolyn pan mae Byrddau Iechyd wedi awgrymu bod angen iddynt newid lleoliadau gofal er mwyn derbyn y cyllid GIP y mae ganddynt hawl iddo - er enghraifft symud o'u cartref eu hunain, neu i gartref gofal gwahanol. Gall hyn fod oherwydd nad oes digon o staff cymwys i ddarparu gofal yng nghartref yr unigolyn neu gartref gofal presennol, neu fod y gost ariannol yn fwy nag mewn lleoliad preswyl. Fodd bynnag, ni ddylai unigolion deimlo bod rhaid iddynt ddewis rhwng newid eu lleoliad gofal a pheidio â derbyn cyllid GIP. Mae hyn yn achosi pryder diangen i'r unigolion dan sylw.

Rwy'n croesawu'r geiriad newydd sy'n egluro cyfrifoldeb y GIG i ddiwallu anghenion GIP ar gyfer y rheini sydd eisiau byw gartref ac yn gwahardd gosod terfynau ariannol mympwyol ar becynnau gofal yn y cartref. At hynny, dylai gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 olygu nad yw'r gwahaniaeth hanesyddol mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio bellach yn berthnasol fel rhwystr i barhau i fyw mewn cartref gofal penodol - os yw'r cartref gofal yn fodlon ac yn gallu darparu gofal nyrsio. Fodd bynnag, rwy'n poeni, er bod dal prinder staff gofal â chymwysterau addas (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig), bydd unigolion yn parhau i deimlo pwysau gan Fyrddau Iechyd i symud i gartref gofal, neu o Fyrddau Iechyd a chartrefi gofal i symud i mewn i gartref 'nyrsio' unwaith y byddant yn gymwys am GIP.

Rwy'n credu y dylai'r fframwaith gynnwys mwy o hyblygrwydd o ran taliadau uniongyrchol. Rwy'n ymwybodol drwy waith achos fod unigolion wedi gorfod dewis rhwng parhau â thaliadau uniongyrchol neu dderbyn cyllid GIP. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn achosion lle gallai unigolion fod eisiau defnyddio taliadau uniongyrchol i gadw staff gofal penodol, neu mewn ardaloedd sydd â nifer gyfyngedig o asiantaethau gofal. Arweiniodd un achos o'r fath at unigolyn yn mynd heb oriau iechyd ei becyn gofal am fisoedd gan na allai'r Bwrdd Iechyd ddod o hyd i asiantaeth ofal newydd heb hawl i gyllido taliadau uniongyrchol. Mae achos o'r fath yn dangos yr angen am fwy o hyblygrwydd yn y system taliadau uniongyrchol gan yr effeithiwyd yn annheg ar y cleient oherwydd ei leoliad a diffyg asiantaethau gofal lleol. Dylai'r fframwaith adlewyrchu'r angen i gydnabod hawliau a dewis unigolyn yng nghanol sefyllfa gymhleth y fframwaith, cymhwysedd a chyllid. Rwy'n cwestiynu a oes angen 'gwaharddiad cyffredinol' a chredaf y gallai sail achos wrth achos fod yn fwy priodol, yn enwedig mewn amgylchiadau lle mae'r trefniadau presennol yn gweithio'n dda i'r unigolyn.

Hawliadau ôl-weithredol

Mae unigolion wedi dweud wrth fy nhîm gwaith achos am yr anawsterau wrth hawlio cyllid GIP yn ôl-weithredol. Dywedwyd eu bod yn teimlo bod yr oedi y tu hwnt i'w rheolaeth, fel oedi profiant, wedi rhwystro eu gallu i hawlio'n ôl-weithredol, ac nad oedd y dyddiadau cau ar gyfer yr hawliadau hyn yn cael eu hysbysebu'n ddigon eang.

Rwy'n credu bod angen mwy o eglurhad a hyblygrwydd wrth ddefnyddio'r term 'amgylchiadau esgusodol' wrth hawlio cyllid GIP yn ôl-weithredol, a chan nad yw'r fframwaith cyfredol yn mynd i'r afael â'r angen i hysbysebu dyddiadau cau o'r fath dylid cynnwys hyn yn y fframwaith ddiwygiedig, fel nad yw teuluoedd yn colli allan ar gyllid y mae ganddynt hawl iddo. Mae'r amserlen ar gyfer gwneud cais am hawliadau ôl-weithredol hefyd yn gyfnod anodd yn emosiynol ac felly mae'n ddealladwy efallai na fydd dyddiadau cau ar gyfer hawlio GIP wastad yn cael eu cyflawni. Rwy'n credu bod cynyddu hyblygrwydd mewn sefyllfaoedd lle mae amgylchiadau allanol wedi atal cais yn ddull teg mewn cyfnod anodd.

Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth

Rwy'n croesawu symleiddio ac ail-drefnu'r fframwaith i'w wneud yn haws ei ddefnyddio. Mae'n bwysig i'r fframwaith ddarparu eglurder fel bod yr unigolion hynny sy'n hawlio cyllid GIP yn gallu deall eu hawliau a'r broses asesu mor hawdd â phosibl.

Byddwn yn croesawu cyhoeddi fframwaith symlach sydd wedi'i anelu at ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, mae angen ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth sydd wedi'u targedu at y cyhoedd a staff rheng flaen sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan fod fy swyddfa yn ymwybodol o achosion lle mae unigolion wedi derbyn gwybodaeth anghywir neu oedi gyda'r broses GIP. Rwy'n poeni y gallai mynediad pobl hŷn i GIP gael ei rwystro os nad ydyn nhw'n ymwybodol o'r system, sut mae'n gweithio, neu os nad ydyn nhw'n derbyn y wybodaeth ddiweddaraf. Byddai'n anodd i unigolyn gyfleu ei amgylchiadau i'r Tîm Amlddisgyblaethol os nad yw'n gwbl ymwybodol o'r broses asesu GIP neu os nad yw'n deall hynny. Byddai ymgyrch ymwybyddiaeth eang - y gellid ei chynnal yn genedlaethol, ochr yn ochr â gweithgareddau codi ymwybyddiaeth Llywodraeth Cymru o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) - yn sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei heffeithio'n negyddol gan ddiffyg gwybodaeth am y broses.

Rwy'n croesawu bod y fframwaith yn galw ar ymarferwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i dderbyn hyfforddiant ar y cyd o ansawdd uchel. Mae angen i'r broses sicrhau bod gweithwyr proffesiynol perthnasol ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn derbyn yr hyfforddiant hwn i'w galluogi i roi gwybodaeth amserol a chywir.

Gweithredu

Fel y soniwyd eisoes, yr allwedd i lwyddiant y fframwaith fydd y broses weithredu. Mae angen canolbwyntio mwy, ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, ar adrodd yn gywir ar y broses asesu, penderfyniadau cymhwysedd, anghenion iechyd cyffredin, a phrofiadau 'defnyddwyr'. Gallai hyn olygu'r Bwrdd Iechyd yn adrodd ac yn rhannu arfer da, er mwyn deall llwyddiannau a sialensiau'r broses GIP yn well o fewn y system iechyd a gofal ehangach, sy'n gymhleth i'w llywio.

Casgliadau

Er fy mod yn croesawu'r fframwaith newydd yn fras, mae'r dystiolaeth a ddarperir yn dangos y gall cymhlethdodau'r system GIP ac anghysondebau wrth ei gweithredu effeithio'n negyddol ar bobl hŷn. Rwyf wedi darganfod, drwy fy ngwaith achos, fod gan y cyhoedd ddiffyg gwybodaeth am GIP a bod unigolion a'u teuluoedd yn aml yn dibynnu ar wybodaeth, ymwybyddiaeth a gallu'r staff i esbonio'r broses GIP. Credaf y byddai cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r system GIP a gwella'r system adrodd ar sut mae'r broses asesu yn gweithio, yn gwella gwybodaeth a phrofiad pobl hŷn o'r broses asesu GIP.

Rwy'n cydnabod bod y system GIP yn rhan o amgylchedd iechyd, tai a gofal cymdeithasol llawer ehangach. Mae hyn yn gymhleth ac yn destun craffu, yn enwedig o ran cyllid, strwythurau a phrosesau'r dyfodol. Er nad yw'r ymgynghoriad hwn yn mynd i'r afael â'r materion hynny, rwy'n ymwybodol bod angen dybryd archwilio lle mae GIP o fewn yr amgylchedd hwn.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau nad yw'r broses GIP yn cael effaith andwyol ar unrhyw berson hŷn, ac i archwilio cyllid a strwythurau iechyd a gofal cymdeithasol y dyfodol i gefnogi pobl hŷn.

Os hoffech drafod hyn ymhellach, neu os gallaf fod o gymorth pellach, cysylltwch â'm swyddfa ar 03442 640 670.

Yn gywir,



Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru